Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Treboeth-Tirdeunaw**

**Dinas a Sir Abertawe**
**Canolfan Gymunedol De Penlan**
**Heol Frank**
**Abertawe**
**SA5 7AH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Treboeth-Tirdeunaw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Treboeth-Tirdeunaw |
| Lleoedd cofrestredig | 20 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo yng Nghylch Meithrin Treboeth-Tirdeunaw. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn y maent am chwarae ag ef a ble maent am chwarae. Mae gan y plant gydberthnasau da â'i gilydd a'r staff. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd dan do.

Mae'r staff yn brofiadol ac maent yn deall ac yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau i hybu llesiant a hyrwyddo diogelwch y plant. Mae'r staff yn annog y plant i fynegi eu hunain ac yn rhyngweithio â nhw mewn modd cadarnhaol a gofalgar. Mae'n amlwg eu bod yn adnabod y plant yn dda iawn. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth fach o weithgareddau chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn. Gall y plant gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a defnyddio amrywiaeth o adnoddau.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ac maent yn awyddus i wella. Fodd bynnag, mae angen iddynt wella eu dealltwriaeth o'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae meysydd i'w gwella wedi'u nodi mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth. Ceir ethos tîm cryf sy'n hyrwyddo darpariaeth effeithiol. Mae ganddynt gydberthnasau cryf â'r rhieni, y gofalwyr a'r gymuned leol.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn adnabod y staff yn dda ac yn mynd atynt am gyfarwyddyd neu gysur. Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Maent yn dewis pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt a'r adnoddau y maent am chwarae â nhw o'r hyn sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, gwelsom y plant yn dewis chwarae â'r teganau reidio yn syth ar ôl cyrraedd y lleoliad. Clywsom y plant yn gofyn am fwy o laeth a dŵr yn hyderus yn ystod amser byrbryd. Maent yn mwynhau amser cinio cymdeithasol, gan sgwrsio'n hapus gyda'u ffrindiau a'u staff.

Mae bron pob un o'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni neu ofalwyr. Maent yn adnabod y drefn ddyddiol yn dda, ac yn gwybod beth sy'n digwydd nesaf. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus ac maent yn mwynhau'r rhyddid i ddewis ble i chwarae o fewn yr ystafell. Mae gan y plant gydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a'r staff. Gwelsom y plant yn chwerthin ac yn gwenu wrth chwarae. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn teimlo'n hyderus i ganu cân yn unigol i ni, yn ogystal â gofyn i ni pam rydym yno. Mae'r plant yn meithrin hunan-barch, gan fynegi eu hunain drwy'r amrywiaeth o

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Gallant aros eu tro pan fydd y staff yn gweini ffrwythau a dŵr iddynt, ac mae rhai o'r plant yn diolch i'r staff am eu bwyd a'u diod. Mae'r plant yn gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu, ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u teimladau. Clywsom y plant yn mynegi eu bod yn drist pan nad oedd plant yn rhannu adnoddau. Mae llawer ohonynt yn chwarae’n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Gwelsom y plant yn cydweithio mewn pâr i wthio'r doliau yn y pram. Anogir y plant i fod yn garedig ac ystyriol tuag at eu cyfoedion. Maent yn dysgu sut i gymryd eu tro a rhannu yn ystod y gweithgareddau.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gaiff eu cynnig. Maent yn rhydd i archwilio eu hamgylchedd a chymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn gallu canolbwyntio am gyfnodau priodol o amser yn ystod y gweithgaredd toes chwarae, y gweithgaredd chwarae dychmygus ac wrth edrych ar lyfr. Mae'r plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddangos yr hyn y maent yn ei ddysgu i'r oedolion. Er enghraifft, roedd rhai o'r plant am ddangos y marciau roeddent wedi'u creu i'r staff ac yn sgwrsio’n hapus amdanynt. Mae llawer o'r plant yn awyddus i ymuno â'r sesiynau grŵp ac yn ymgysylltu â'r staff yn ystod y sesiwn ganu.
Caiff y plant eu hannog i dacluso ar ôl chwarae. Maent yn naturiol yn ceisio gwneud pethau'n annibynnol cyn i'r staff ymyrryd, fel cau sipiau eu cotiau eu hunain a chasglu eu heiddo. Maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol, ond mae'r cyfleoedd i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd yn gyfyngedig.

| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i roi gwybod am bryderon. Mae'r staff yn cadw cofnodion yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau sy'n cael eu llofnodi gan y rhieni. Nid oes gan bob aelod o'r staff dystysgrif cymorth cyntaf pediatrig ddilys. Mae'r staff yn hybu bwyta'n iach drwy baratoi byrbryd iach dyddiol, a chynigir llaeth a dŵr i'w yfed. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod diodydd ar gael i'r plant drwy gydol y sesiwn yn unol â'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r plant yn dod â phecyn cinio. Gwnaethom drafod sut i storio pecynnau cinio yn briodol yn ystod yr ymweliad, gan fod y rhain yn cael eu storio ar dymheredd ystafell. Mae bron pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar hylendid bwyd ac yn dilyn y gweithdrefnau glanhau cywir fel rhan o'r broses rheoli heintiau er mwyn helpu i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom drafod y defnydd o Gyfarpar Diogelu Personol wrth drin bwyd.

Mae'r staff yn trin y plant ag urddas a pharch. Maent yn sensitif i anghenion y plant, yn ofalgar ac yn garedig. Maent yn cofleidio'r plant pan fydd angen er mwyn rhoi cysur a thawelwch meddwl iddynt. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, sy'n eu galluogi i ymateb i'w hanghenion a'u hoff bethau. Mae'r staff yn deall nod y polisi rheoli ymddygiad, sef hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol drwy ganmol a defnyddio iaith gadarnhaol. Mae'r staff yn ymdrin ag unrhyw ymddygiad heriol mewn modd cyson. Er enghraifft, gwelsom y staff yn tawelu anghydfod rhwng plant a oedd am ddefnyddio'r un adnoddau, drwy siarad yn bwyllog ac ystyried yr opsiynau oedd ar gael. Maent yn canmol dewisiadau ac ymddygiad da gan ddefnyddio iaith gadarnhaol.

Mae'r staff yn brofiadol ac yn meddu ar wybodaeth addas am ddysgu yn seiliedig ar chwarae. Fodd bynnag, nid yw'r broses o gynllunio gweithgareddau i ddatblygu sgiliau a chamau nesaf wedi'i hymgorffori. Mae'r staff yn sicrhau y caiff arsylwadau datblygiadol sylfaenol eu cofnodi. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cefnogi'r plant yn eu chwarae drwy ofyn cwestiynau a chynnal trafodaethau. Mae'r plant yn mynychu'r ysgol gynradd Gymraeg gyfagos ac mae'r staff yn sicrhau eu bod bob amser yn hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r staff yn trochi'r plant yn y Gymraeg yn fedrus drwy ganeuon a straeon yn ogystal â gweithgareddau â phwyslais penodol fel y gofrestr ddyddiol a thrafod y tywydd. Wrth gyfathrebu, defnyddir y Gymraeg yn gyntaf, ond gan gynnig y cyfieithiad Saesneg os bydd ei angen, er mwyn diwallu anghenion y plant. Mae llawer o'r staff yn hyrwyddo dysgu'r plant drwy gwestiynau priodol. Er enghraifft, yn ystod y gweithgaredd chwarae, roedd y staff yn gofyn cwestiynau addas fel "*What colour is that?*"
Mae'r staff yn hybu llesiant corfforol y plant yn briodol drwy ddarparu dewis o gyfarpar i hyrwyddo eu datblygiad corfforol, er enghraifft strwythur dringo, llithren a theganau reidio.

## Yr Amgylchedd Digonol

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r cylch meithrin wedi'i leoli yn y neuadd gymunedol. Mae'r staff yn paratoi'r lleoliad ac yn rhoi'r adnoddau i gadw bob dydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r lleoliad. Maent yn trefnu ymarferion tân, a chaiff y rhain eu hamseru, eu dyddio a'u gwerthuso. Caiff deunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant. Mae asesiadau risg sylfaenol ar waith ar gyfer pob ardal dan do yn ogystal ag ar gyfer hebrwng y plant i'r ysgol ac oddi yno. Fodd bynnag, nid oes asesiadau risg ar gyfer yr holl gyfarpar a ddefnyddir gan y plant. Y cyngor sy'n gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw ac am wasanaethu cyfleustodau, ac mae'n rhannu gwybodaeth â'r lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn canolbwyntio ar y plentyn. Mae gan y plant le i chwarae a dysgu mewn un ystafell fawr. Nid oes ganddynt fynediad i ardal awyr agored ddynodedig ar hyn o bryd. Mae toiledau'r plant yn hawdd eu cyrraedd ac yn darparu ar gyfer preifatrwydd ac urddas y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth ddigonol o adnoddau o ansawdd da ar gael mewn amgylchedd chwarae. Mae'r staff yn sicrhau y caiff yr adnoddau eu sychu'n lân ar ddiwedd pob sesiwn. Fodd bynnag, ni chaiff cofnod ysgrifenedig ei gadw pan gaiff y teganau a'r adnoddau eu glanhau'n drylwyr a'u sterileiddio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cynllun yr ardal dan do yn galluogi'r plant i archwilio'n rhydd, a gall y plant gael gafael ar y mwyafrif o'r cyfarpar ar fyrddau lefel isel sy'n cefnogi eu hannibyniaeth. Maent yn darparu cyfarpar ac adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant. Ceir adnoddau cyfyngedig i ennyn chwilfrydedd a'r awydd i ddarganfod. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant chwarae'n egnïol yn yr ardal dan do. Mae hyn yn ymestyn eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r plant yn edrych ymlaen at chwarae ar y beiciau, dringo'r strwythur plastig, a defnyddio'r llithren.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol

Ceir arweinyddiaeth a rheolaeth ddigonol yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chaiff cofnodion eu cadw. Fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad, nid oedd y polisi plentyn coll/heb ei gasglu ar gael ac ni welsom y fersiwn fwyaf cyfredol o'r polisi amddiffyn plant. Cymerwyd camau i unioni hyn yn syth ar ôl yr ymweliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn barod i dderbyn adborth ac i weithredu ar faterion y tynnir eu sylw atynt. Maent wedi ymgysylltu'n gadarnhaol ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn dilyn yr arolygiad ac yn awyddus i wneud gwelliannau. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau o bwys, er enghraifft newidiadau i'r staff. Mae hyn wedi'i nodi fel maes i'w wella, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig i ofalu am y plant a bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal bob amser. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod dogfennaeth addasrwydd ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Nid oes gan bob aelod o'r staff dystysgrifau hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, mae gan bob aelod o'r staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd gwirfoddolwr yn cynorthwyo yn y lleoliad. Nid oedd yr arweinydd wedi sicrhau bod dogfennau addasrwydd, na thystysgrif gyfredol ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ar waith ar gyfer y gwirfoddolwr. Mae hyn wedi'i nodi fel maes i'w wella, ac er nad oes angen gweithredu ar unwaith, rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r arweinydd a'r person â chyfrifoldeb yn trafod materion yn anffurfiol yn ddyddiol, ac mae proses rheoli perfformiad ar waith ar gyfer arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cofnodion ar gyfer y plant yn cael eu cadw a'u llofnodi gan y rhieni. Mae'r rhain yn cynnwys contractau, caniatadau, ffurflenni gwybodaeth ac anghenion unigol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llunio adroddiad ar ansawdd y gofal, gan ofyn am safbwyntiau'r plant, y rhieni a'r staff a gweithredu arnynt. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r gofalwyr yn gadarn. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad yn fawr ac yn gadarnhaol iawn am yr arweinydd, y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Dywedodd llawer o'r rhieni wrthym eu bod o'r farn bod y staff wedi diwallu anghenion unigol eu plant ac y byddent yn argymell y lleoliad i eraill.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 28 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio am nad oedd gan y gwirfoddolwyr a oedd yn bresennol yn ystod yr ymweliad arolygu, ddogfennaeth o'u haddasrwydd a gwiriadau ar waith. | Newydd |
| 31 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw wedi rhoi gwybod i AGC am newidiadau i'r staff. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod diodydd ar gael i'r plant drwy gydol y sesiwn. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau y caiff asesiadau risg eu cynnal ar gyfer y gweithgareddau a'r cyfarpar. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau y caiff gweithgareddau eu cynllunio, a'u bod yn dangos datblygiad o ran sgiliau a chamau nesaf. |
| Safon 20 - Amddiffyn plant | Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod nifer ddigonol o aelodau'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gymorth cyntaf dilys. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
| --- |
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau y caiff y gweithdrefnau hylendid eu dilyn drwy ddefnyddio ffedogau a menig untro wrth drin bwyd, yn ogystal â storio bwyd yn briodol. |
| Sicrhau y caiff annibyniaeth y plant ei hybu'n llawn bob amser. |
| Sicrhau y caiff cofnod ei gadw i ddangos bod y teganau a'r adnoddau wedi cael eu glanhau. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/06/2024